# Rhan Dau: Cynllun Mynediad a Ffioedd (angen ei gyhoeddi)

| Cynllun Mynediad a Ffioedd | |
|---|---|
| Enw'r sefydliad | Prifysgol Glyndŵr Wrecsam |
| Hyd y cynllun mynediad a ffioedd | 1 Awst 2023 hyd at 31 Gorffennaf 2025 |
| **Adran 1 - Lefelau ffioedd** | |
| Adran 1.1 - Lefelau ffioedd neu bennu lefel ffi ym mhob lleoliad<br>(Paragraffau cyfarwyddyd 88-97) | |

Bydd y Brifysgol yn pennu'r lefel ffioedd ar gyfer 2023/24 a 2024/25 yn unol â gofynion rheoliadau Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/1/contents/enacted). Wrth wneud hyn, mae'r Brifysgol yn datgan yn glir bod:

- Y lefelau ffioedd yn cael eu cyfrifo gan gydnabod yr uchafswm a ganiateir, yn unol â'r arferiad yn y sector:
- Gweler gwybodaeth ynghylch y lefelau ffioedd cyfredol ac arfaethedig ar wefan y Brifysgol (https://glyndwr.ac.uk/cy/ffioedd-a-chyllido/sut-i-dalu/)
- Cymeradwyir lefelau ffioedd gan Fwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol yn dilyn argymhellion gan dîm rheoli'r Brifysgol. Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn cymeradwyo
    - y broses o bennu ffioedd, a'r fethodoleg ar gyfer gwneud hynny;
    - Yr uchafswm ffioedd y caniateir iddi eu codi gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru fydd y ffi a fydd yn cael ei chodi, a dim mwy;
    - Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cyfathrebu'n glir a chyn gynted â phosibl i fyfyrwyr ac ymgeiswyr;
    - Os yw'r Brifysgol yn penderfynu newid y Ffi yr oedd yn dymuno ei chodi ar ôl cymeradwyo'r Cynllun Mynediad a Ffioedd, bydd angen cael caniatâd i wneud hyn gan Gadeirydd y Bwrdd Llywodraethwyr mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid.

Bydd pob penderfyniad yn ymwneud â ffioedd dysgu yn cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â'r Undeb Myfyrwyr ac yn cael eu cyfathrebu i unrhyw fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr sy'n cael eu heffeithio gan y newid.

## Adran 1.2 - Lefelau ffioedd cyfanredol
(Paragraffau cyfarwyddyd 98-102)

Bwriad y Brifysgol yw codi'r lefel ffioedd uchaf am gyrsiau israddedig, llawn amser ar gyfer 2023/24 a 2024/25, sy'n cael ei phennu pan gaiff y cynllun mynediad a ffioedd hwn ei gymeradwyo gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Ni fydd y lefel ffioedd arfaethedig yn uwch na'r swm uchaf a ganiateir.

Uchafswm y lefel ffioedd yw £9,250 ar hyn o bryd. Gall ffioedd dysgu godi'n flynyddol i bob myfyriwr (bydd ffioedd israddedig i fyfyrwyr cartref, y rheini y mae eu cyfraddau yn cael eu rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru a'r DU, yn cael eu haddasu yn unol ag unrhyw newid a gynigir gan Lywodraeth Cymru). Mae'r ffioedd a nodwyd yn berthnasol ar gyfer eich blwyddyn gyntaf yn unig.  Mewn perthynas â blynyddoedd dilynol, ar gyfer myfyrwyr sy'n parhau i astudio yng Nghymru, gall y ffioedd gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn gan chwyddiant ym mhob blwyddyn academaidd o'ch astudiaeth, ac eithrio lle maent wedi'u rheoleiddio. Ar hyn o bryd y ffi ar gyfer 2024/25 yw £9,000 ar gyfer myfyrwyr newydd yn eu blwyddyn gyntaf o astudio; codir yr uchafswm ffi (£9,250) ar fyfyrwyr sy'n parhau. Bydd unrhyw addasiad i hyn yn cael eu cyfathrebu i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr.

Mae gan y Brifysgol, i ymateb i newidiadau yn yr uchafswm ffioedd a ganiateir gan Lywodraeth Cymru, yr hawl i newid lefelau ffioedd ar ôl cyflwyno'r Cynllun Mynediad a Ffioedd. Byddai angen i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gytuno ar unrhyw newidiadau yn lefelau ffioedd a byddai angen eu cyfathrebu i fyfyrwyr, drwy'r dulliau isod. Gallai newidiadau yn lefelau ffioedd effeithio ar yr ystod lawn o ddarpariaeth sydd wedi'i hamlinellu yn y Cynllun hwn, sydd ar hyn o bryd yn seiliedig ar ragdybiaeth o uchafswm lefel ffioedd o £9,250.

Ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n astudio yn Barking a Dagenham ar y rhaglen BA Busnes, y ffi ar gyfer 2023/24 yw £6,000 fesul myfyriwr fesul blwyddyn.

Ar gyfer myfyrwyr a ymrestrodd ym mlynyddoedd blaenorol, bydd y Brifysgol yn derbyn yr ymrwymiadau a wnaed yn y Cynllun Mynediad a Ffioedd perthnasol i'r flwyddyn fynediad.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio gwefan Prifysgol Glyndŵr Wrecsam fel prif ffocws pob gwybodaeth sy'n ymwneud â ffioedd a chefnogi myfyrwyr, yn ogystal â deunyddiau argraffedig megis y prosbectws. Bydd manylion cynhwysfawr o bob ffi a threfniadau cefnogi myfyrwyr ar gael cyn gynted â phosibl er mwyn cynorthwyo myfyrwyr i wneud penderfyniadau. Mae'r Brifysgol yn cynnig datganiadau clir ar ei gwefan mewn adran bwrpasol yn cyflwyno holl ffioedd a chyllid ar gyfer blynyddoedd perthnasol (https://glyndwr.ac.uk/cy/ffioedd-a-chyllido/sut-i-dalu/) a bydd yn cyhoeddi'r cynllun mynediad a ffioedd cyn gynted ag y caiff ei gymeradwyo gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yn ogystal â rhagor o fanylion ynghylch ffioedd i bob myfyriwr ar gyfer 23/24 a 2024/25.  Mae'r rheoliadau ffioedd a'r wybodaeth a roddir yn ymdrin â llwybrau mynediad a phob pwnc, a byddwn yn ofalus i gynnwys ystyriaethau am faterion penodol, megis trefniadau ar gyfer myfyrwyr sy'n trosglwyddo atom o sefydliadau eraill, gohirio astudiaeth neu drosglwyddo o lawn amser i ran amser, a bydd yn eglur bod y ffioedd yn cynnwys pob agwedd ar y cwrs sydd eu hangen i'w gwblhau'n llwyddiannus.

Wrth ddarparu gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr, bydd y Brifysgol yn gweithredu yn unol â Chanllawiau'r Awdurdod Prynwyr a Marchnadoedd 2015 i sicrhau bod darpar fyfyrwyr yn cael y wybodaeth sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniad dysgedig cyn iddynt wneud cais. Felly, yn ogystal â gwybodaeth ynghylch ffioedd i ddarpar fyfyrwyr yn cael ei darparu gyda manylion ynghylch unrhyw eitemau ychwanegol, megis ffioedd teithiau maes, cyfarpar labordy neu fainc/stiwdio (pryd bynnag sy'n berthnasol) sy'n angenrheidiol i gwblhau eu cymwysterau yn llwyddiannus.  Yn ogystal, byddwn yn rhoi dolenni gwe i ddarpar fyfyrwyr at ein hamodau a thelerau, gan gynnwys unrhyw reolau a rheoliadau mae myfyrwyr yn rhwym iddynt, a gwybodaeth

ynghylch cynnwys a strwythur y cwrs. Bydd myfyrwyr sy'n cyflwyno cais ac yn cael cynnig lle yn cael ystod gynhwysfawr o wybodaeth glir, gryno ac amserol ynghylch eu cyrsiau, amserlenni, asesiadau, ffioedd, rheoliadau, systemau cymorth, datblygiadau'r campws ac unrhyw newidiadau iddynt.

## Adran 2 - Partneriaeth â Myfyrwyr

(Paragraffau cyfarwyddyd 103-106)

Mae myfyrwyr wedi cyfrannu at greu'r Cynllun hwn yn uniongyrchol a ffurfiol ac yn anuniongyrchol ac anffurfiol, gyda'r ail yn dod yn fwy gwerthfawr, pwysig a chynhwysfawr bob blwyddyn. Mae'r cyfraniad uniongyrchol a ffurfiol wedi bod drwy ymgysylltu â'r Undeb Myfyrwyr a'i Swyddogion Sabothol, nid yn unig fel aelodau cyfrannol mewn grwpiau gwahanol sy'n ystyried ac yn adolygu'r Cynlluniau ond hefyd yn uniongyrchol gyda'r Tîm Cynllunio ac Adrodd, sy'n arwain y gwaith o ddwyn ynghyd y Cynlluniau Mynediad a Ffioedd. Manteisir ar y cyfle i ystyried y Cynlluniau drwy gyfarfodydd un i un rheolaidd a gynhelir rhwng y Dirprwy Is-ganghellor a Llywydd yr Undeb Myfyrwyr.

Mae gweithio'n agos mewn partneriaeth â'r corff myfyrwyr yn rhan annatod o ddull y Brifysgol o ymdrin â phob maes o strategaeth, polisi ac ymarfer y profiad myfyrwyr. Cadarnhaodd adroddiad Adolygiad Gwella Ansawdd 2019 y gwaith effeithiol sy'n digwydd gyda myfyrwyr o ran *"[c]yd-ddatblygu, rheoli a gwerthuso eu profiad fel myfyrwyr"*. Dengys y bartneriaeth hon drwy'r llwybrau helaeth a thrylwyr i fyfyrwyr roi adborth ac ymgysylltu â myfyrwyr, lle mae sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cymryd "i ymateb i'r adborth hwnnw" yn hollbwysig. Mae'r Brifysgol yn amlinellu'r gwerth, diben a dulliau mewn perthynas â hyn yn ei Pholisi a Fframwaith Ymgysylltu â Myfyrwyr, proses wedi'i dogfennu wedi'i chreu gyda'r Undeb Myfyrwyr, ac mae hon yn sail i'r Cynllun Mynediad a Ffioedd.

Dyma enghreifftiau o'r llwybrau adborth:

- Cynnwys adran "Myfyrwyr fel Partner" bwrpasol yn y Strategaeth ar gyfer Cefnogi Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr
- Mae Fforymau Llais Myfyrwyr yn effeithiol a chynhwysfawr ar draws meysydd rhaglenni;
- Llwybrau adborth yr Undeb Myfyrwyr, sef "Tell Glyn" i ddarparu adborth ar feysydd academaidd a gweithredol ac "Ask Glyn" fel adnodd cyfeirio ar-lein, a chydag adroddiadau ar adborth myfyrwyr a gweithredoedd a gymerir yn y Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu;
- Hyfforddiant i gynrychioli myfyrwyr (sydd wedi derbyn gwobr genedlaethol) dan arweiniad yr Undeb Myfyrwyr a'r modiwl eiriolaeth ar gyfer cynrychiolwyr myfyrwyr.
- Cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd yr Undeb Myfyrwyr ac aelodau Gweithredol, yn ogystal â chyfraniad swyddogion sabothol mewn grwpiau allweddol, megis y Bwrdd Llywodraethwyr, yr uwch dîm rheoli, y Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd, y Bwrdd Academaidd a'r Grŵp Mynediad ac Ymgysylltu Myfyrwyr;
- Caiff cynrychiolaeth gan fyfyrwyr ei chynnwys mewn digwyddiadau dilysu a chymeradwyo

Defnyddir ymgysylltiad ac adborth o'r fath i fod yn sail i ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth Cefnogi Dysg a Chyflawniad Myfyrwyr, y Strategaeth Ehangu Mynediad a meysydd allweddol eraill. Mae hon wedyn yn cynnwys y Cynllun Mynediad a Ffioedd llawn, sef y brif ffordd o amlinellu bwriad a gweithredoedd y Brifysgol mewn perthynas â hyrwyddo addysg uwch a chyfle cyfartal, ac fel y cyfryw yn sail i bob agwedd, gan gynnwys amcanion, gweithgareddau/gwasanaethau a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r llais myfyrwyr wedi'i gynrychioli'n ffurfiol drwy ymglymiad gweithredol swyddogion sabothol ar ystod o grwpiau a phwyllgorau rheoli a gweithredol allweddol.

Hefyd ynghlwm â datblygu'r Cynllun mae'r rheini yn y Brifysgol sy'n gyfrifol am weithio gyda darpar fyfyrwyr, ac mae rhan o'u cyfraniad at y Cynllun yn seiliedig ar safbwyntiau darpar fyfyrwyr sy'n cynnig adborth a sylw ar ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau mae'r Brifysgol ynghlwm â'u cynnal, ac mae hyn yn cynnwys y rheini sydd ynghlwm â gweithgareddau Ymestyn yn Ehangach. Yn fwy ffurfiol, mae Cynllun Mynediad a Ffioedd y Brifysgol wedi'i ystyried a'i adolygu gan gydweithwyr yn y tîm Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach, sydd hefyd wedi'u cynrychioli yn y Grŵp Mynediad ac Ymgysylltu Myfyrwyr (y corff sy'n gyfrifol am ddatblygu a monitro'r Cynllun).

Caiff popeth a nodir uchod ei ddefnyddio gan y Tîm Cynllunio ac Adrodd i ddrafftio'r Cynllun, sydd eto yn cael ei rannu gyda'r corff myfyrwyr drwy'r llwybrau ffurfiol. O ystyried ehangder a chadernid y prosesau adborth, gallwn gyfarwyddo pob agwedd ar y Cynllun: yr hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni; at bwy ydym yn troi am gefnogaeth, yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud i gyflawni ein hamcanion, er enghraifft. Mae cyd-ddarparu gwasanaethau hefyd yn rhan bwysig o'r ddarpariaeth, gyda'r Modiwlau Eiriolaeth Myfyrwyr yn enghraifft dda, yn ogystal â gwaith y Brifysgol gyda'r Undeb Myfyrwyr i ddatrys problemau myfyrwyr yn gyflym a allai fel arall ddwysáu yn fwy cymhleth petaent yn dod yn gwynion mwy ffurfiol.

## Adran 3 - Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol

(Paragraffau cyfarwyddyd 107-113)

Nod y Brifysgol yw cefnogi pawb i fynd i addysg uwch, ac mae'r Cynllun Mynediad a Ffioedd wedi'i ddatblygu i fynd i'r afael â grwpiau penodol sydd, yn genedlaethol, heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Mae'r rhain yn cyd-fynd â grwpiau targed Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac Ymestyn yn Ehangach, ac yn cael eu hadnabod fel:

- Y grwpiau hynny a adnabyddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch
    - Y rheini o ardaloedd difreintiedig o Gymru (fel y nodir yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)
    - Myfyrwyr gradd rhan amser;
    - Myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
    - Y rheini o ardaloedd cyfranogiad isel y DU (POLAR)
- Y rheini a gefnogir naill ai drwy'r cyfraniad sefydliadol at y Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach neu fel rhan o Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach Gogledd Cymru;
    - Y rheini o ardaloedd difreintiedig o Gymru (fel y nodir yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) (fel yr uchod), yn enwedig pobl ifanc a'r rheini dros 21 oed sydd heb gymwysterau lefel 4

- Y rheini o unrhyw oedran sydd â phrofiad o ofalu am rywun a'r rheini sy'n ofalwyr
- Y grwpiau hynny a adnabyddir gan y sefydliad heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU:
  - Myfyrwyr anabl;
  - Myfyrwyr hŷn
  - Benywod mewn STEM

Yn ogystal, byddwn yn parhau i ymestyn y gwaith a wnawn ar draws cymunedau gogledd Cymru a gweithio ar y cyd â'r grwpiau hyn i helpu i adnabod ymhellach yr anghenion mewn dysgu ac addysg, ac ymateb iddynt. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'n bosibl y bydd rhagor o grwpiau targed penodol yn cael eu hadnabod, ond ni fyddant yn hysbys hyd nes y cyfnod cydweithio. Ymhellach i hynny, bydd y Brifysgol, drwy ei gwaith monitro a gwerthuso ac adolygu ei Strategaeth Ymgyrraedd yn Ehangach, yn parhau i adolygu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol; er enghraifft, ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn ymgymryd â dadansoddiad yn canolbwyntio ar y garfan o fyfyrwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig y Brifysgol, yn ogystal â'r gwaith y mae'n ei wneud y gellir ei dargedu at Geiswyr Lloches. Bydd y canlyniadau hyn yn bwydo i'r Strategaeth Ymgyrraedd yn Ehangach yn gyntaf, gydag ystyriaeth i ddilyn ynghylch eu cynnwys yng Nghynlluniau Mynediad a Ffioedd y dyfodol.

## Adran 4 – Amcanion fel maent yn ymwneud â chefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo AU
(Paragraffau cyfarwyddyd 114-148)

### Adran 4.1 - Cyfle Cyfartal

**Amcan 1**

Hyrwyddo ac Ehangu Mynediad at Addysg Uwch ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol

**Amcan 2**

Darparu cefnogaeth llesiant ac academaidd ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn gwella eu profiad o addysg uwch ac er mwyn eu hannog i barhau â'u hastudiaethau a'u cwblhau yn enwedig

**Amcan 3**

Datblygu a hyrwyddo cymuned academaidd a myfyrwyr gynhwysol

| |
|---|
| **Amcan 4**<br>Ehangu ein darpariaeth academaidd Gymraeg |
| **Adran 4.2 - Hyrwyddo Addysg Uwch** |
| **Amcan 5**<br>Darparu profiad rhagorol i fyfyrwyr |
| **Amcan 6**<br>Cryfhau ymgysylltiad cymunedol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a chydymffurfiaeth â hi |
| **Amcan 7**<br>Sicrhau cyflogadwyedd graddedigion |

## Awdurdodi cyflwyno'r cynllun mynediad a ffioedd i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (angen ei gyhoeddi)

Wrth awdurdodi ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd, mae'r corff llywodraethu:

i. yn cadarnhau ei fod yn parhau i fod yn sefydliad sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru ac yn elusen.

ii. wedi gweld ac ystyried tystiolaeth briodol i gefnogi'r datganiadau yn cael eu gwneud yn y cais hwn.

iii. yn cadarnhau bod ymgynghoriad priodol wedi'i gynnal gyda'i fyfyrwyr, y rheini sy'n astudio yn y sefydliad a chyda darparwyr eraill lle darperir addysg ar ei ran.

iv. yn cadarnhau bod y wybodaeth a nodir yn y cynllun mynediad a ffioedd hwn a gyflwynir yn fanwl gywir a chyfredol, ar yr adeg ysgrifennu, a'i bod yn seiliedig ar ddata gwiriadwy.

v. yn cadarnhau: **[dilëwch un datganiad neu fwy, fel sy'n briodol]**
   a. ei bod yn dderbyniol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ddefnyddio gwybodaeth/data ariannol, ansawdd a/neu arall sydd ganddo ynghylch sefydliad sy'n cael ei reoleiddio ar hyn o bryd, boed y wybodaeth/data wedi'i darparu'n wreiddiol at ddibenion rheoleiddio o dan y Ddeddf 2015 ai peidio;

b. nad yw'n dderbyniol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ddefnyddio gwybodaeth/data ariannol, ansawdd a/neu arall sydd ganddo ynghylch sefydliad sy'n cael ei reoleiddio ar hyn o bryd at ddibenion rheoleiddio o dan y Ddeddf 2015; ac
c. ei fod yn cyflwyno gwybodaeth/data newydd, cyfredol, mwy diweddar i fod yn sail i asesiad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

vi. yn deall bod Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cadw'r hawl i ymweld â'r sefydliad er mwyn ennyn dealltwriaeth well am gymhwysedd mewn perthynas â'r sefydliad a rheolaeth materion ariannol, y data a gyflwynwyd ar gynlluniau mynediad a ffioedd a/neu ansawdd yr addysg a ddarperir yn y sefydliad, neu ar ei ran.

vii. yn deall bod rhaid iddo ddarparu gwybodaeth, cymorth a mynediad i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a/neu asiant y Cyngor at ei gyfleusterau a chyfleusterau cyrff eraill sy'n darparu addysg uwch ar ei ran.

viii. yn deall y gall Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gynnal, neu drefnu bod asiant yn cynnal, adolygiad ar ansawdd yr addysg a ddarperir gan y sefydliad, neu ar ei ran, a rhaid i'w gorff llywodraethu ystyried unrhyw gyngor a roddir iddo gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru neu'r corff a benodir gan y Cyngor at y diben hwn.

ix. yn cadarnhau bod pob addysg a ddarperir gan y sefydliad, neu ar ei ran, waeth beth fo lefel neu leoliad y ddarpariaeth, wedi'i chynnwys yn y cais cynllun mynediad a ffioedd hwn.

x. yn cadarnhau bod y sefydliad mewn risg isel o fethu yn ariannol yn y tymor canolig i hir.

xi. yn cadarnhau bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig nad yw'n perthyn i'r un cwmni a/neu unigolyn a baratôdd y cyfrifon.

xii. yn cadarnhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer addysg uwch.

xiii. yn deall bod rhaid i unrhyw ymrwymiadau ariannol i fyfyrwyr a wneir yn y cynllun mynediad a ffioedd, fel y'u cymeradwywyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gael eu cyflawni.

xiv. yn cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi'r un gyfran o incwm ffioedd israddedig llawn amser i hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch, a pheidio â lleihau buddsoddiad i hyrwyddo cyfle cyfartal sydd â'r bwriad o gefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn unig mewn addysg uwch.

xv. yn cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi ei gyfraniad sefydliadol yn y Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach yn unol â'i Strategaeth Ymgyrraedd yn Ehangach a'r Cynllun Gweithredu.

xvi. yn cadarnhau y bydd yn cynnal lefelau cymorth myfyrwyr.

xvii. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn sicrhau bod copi o'r cynllun mynediad a ffioedd yn hygyrch i'w fyfyrwyr ar unrhyw ffurf.

xviii. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn cyfeirio ei fyfyrwyr at brosesau cwynion Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

xix. yn cymryd pob cam rhesymol i gefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n astudio cyrsiau ôl-raddedig.

xx. yn ystyried sut all buddsoddiad gefnogi myfyrwyr sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan bandemig Covid-19 lle nad ydynt eisoes wedi'u hadnabod fel grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

| **Cynllun mynediad a ffioedd a gyflwynwyd i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru[1]** | |
|---|---|
| Dyddiad cymeradwyaeth gan y Corff Llywodraethu: | 6 Mai 2022 |
| Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu: | |
| Dyddiad: | 6 Mai 2022 |
| **Y cynllun mynediad a ffioedd ar ôl i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gadarnhau nad oes rhagor o faterion (pryd bynnag sy'n berthnasol)** | |
| Dyddiad cymeradwyaeth gan y Corff Llywodraethu: | |
| Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu: | |
| Dyddiad: | |

[1] Rhaid i'r cynlluniau mynediad a ffioedd a gyhoeddir ar wefannau'r sefydliad gynnwys fersiynau sydd wedi'u cymeradwyo gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn unig.